# Polisi Recriwtio Cyn-Droseddwyr

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 1 Gorffennaf 2021 |
| Dyddiad Adolygu: | 1 Gorffennaf 2024 |
| Perchennog Polisi: | Tîm Strategaeth a Phrosiectau Pobl |
| Dosbarthu: | Mewnol ac Allanol - Heb fod yn Gyfrinachol |

## Pwrpas

Mae'r polisi hwn yn amlinellu defnydd Barnardo's o wiriadau cofnodion troseddol a recriwtio staff a gwirfoddolwyr sydd ag euogfarnau troseddol.

Mae Barnardo's wedi datblygu'r polisi hwn i:

a) Sicrhau bod Barnardo's yn cydymffurfio ag ysbryd a gofynion y ddeddfwriaeth Adsefydlu Troseddwyr.
b) Sicrhau arfer cyson a theg wrth recriwtio staff a gwirfoddolwyr sydd â chofnod troseddol i swyddi cyflogedig neu rolau gwirfoddol, di-dâl.

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr, gan gynnwys darpar staff/gwirfoddolwyr sy'n gwneud cais am swyddi yn Barnardo's, ac mae ar gael i ymgeiswyr ar ddechrau'r broses recriwtio.

## Rolau a Chyfrifoldebau

Mae **ymgeiswyr sydd wedi’u rhoi ar y rhestr fer** yn gyfrifol am ddatgelu gwybodaeth am gofnodion troseddol na fyddai'n cael eu didoli ar sail p’un ai a yw'r rôl wedi'i heithrio/heb ei heithrio o'r ddeddfwriaeth Adsefydlu Troseddwyr a'r rheolau hidlo perthnasol. Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd ymgeiswyr yn cael gwybod pryd a sut i ddarparu'r wybodaeth hon. Gallai methu â datgelu gwybodaeth na fyddai'n cael ei hidlo arwain at dynnu cynnig amodol o gyflogaeth/gwirfoddoli yn ôl. Efallai y bydd ymgeiswyr a roddwyd ar y rhestr fer sy'n ansicr a oes angen iddynt ddatgelu gwybodaeth am gofnodion troseddol yn dymuno cysylltu â Nacro neu Unlock i gael cyngor diduedd.

Mae **Rheolwyr Llinell/Rheolwyr Recriwtio** yn gyfrifol am gydymffurfio â'r polisi hwn, gan nodi a yw'r rôl yn dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth Adsefydlu Troseddwyr ac os datgelir gwybodaeth am gofnodion troseddol, byddant yn sicrhau y cynhelir trafodaeth bwyllog ar unrhyw droseddau neu bryderon cysylltiedig a allai fod yn berthnasol i'r swydd gyda'r ymgeisydd.

Mae **Timau Pobl Lleol** yn gyfrifol am roi cyngor i reolwyr yn unol â'r polisi hwn a chefnogi rheolwyr wrth gymhwyso'r polisi hwn, yn ôl y gofyn.

Mae'r **Tîm Strategaeth a Phrosiectau Pobl** yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol a Chodau Ymarfer (er enghraifft, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Disclosure Scotland ac Access NI), fel y bo'n briodol a diweddaru'r polisi hwn.

## Diffiniadau/Byrfoddau

**AccessNI** – cangen yw hon o fewn yr Adran Gyfiawnder yng Ngweinyddiaeth Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am brosesu gwiriadau datgelu cofnodion troseddol ar gyfer darpar gyflogwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Mae **Cofnod Troseddol** at ddibenion y polisi hwn yn gallu cynnwys euogfarnau a rhybuddion troseddol 'sydd wedi darfod' a 'heb ddarfod' ac eithrio'r rhai na ddylid eu datgelu mwyach o dan y rheolau hidlo perthnasol. I gael arweiniad ar y rheolau hidlo, edrychwch at Wefan Nacro a/neu wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland neu wefan Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon, fel y bo'n briodol.

**DBS** - Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'n gyfrifol am wiriadau datgelu cofnodion troseddol yng Nghymru a Lloegr.

Mae **Disclosure Scotland** yn un o Asiantaethau Gweithredol Llywodraeth yr Alban. Eu swyddogaeth graidd yw cynnal gwiriadau cofnodion troseddol yn yr Alban a darparu gwybodaeth am hanes troseddol i sefydliadau a darpar gyflogwyr.

## Datganiad Polisi

Mae Barnardo's wedi ymrwymo i sicrhau mynediad cyfartal i gyfleoedd ar gyfer gwaith cyflogedig a gwirfoddol, gan barhau i ddethol a dyrchafu staff ar sail eu gallu i fodloni gofynion y swydd yn unig, waeth beth fo oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas, a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir troseddu amherthnasol, cyfrifoldeb am ddibynyddion, statws economaidd neu werthoedd gwleidyddol.

Ni fydd Barnardo's yn gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unrhyw ymgeisydd ar sail euogfarn neu wybodaeth arall a ddatgelwyd.

## Egwyddorion Cyffredinol

- Fel sefydliad sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Disclosure Scotland a AccessNI i asesu addasrwydd ymgeiswyr sr gyfer swyddi sy'n gofyn am ymddiriedaeth, mae Barnardo's yn cydymffurfio'n llawn â'u Codau Ymarfer ac yn ymrwymo i drin pob ymgeisydd yn deg. Mae copi o'r Cod Ymarfer perthnasol (DBS, Disclosure Scotland neu Access NI) ar gael ar gais gan y Tîm Recriwtio.

- Gofynnir i ymgeiswyr sydd wedi'i rhoi ar y rhestr fer am swydd gwblhau Hunan Ddatganiad Diogelu ar-lein ar sail p'un ai a yw'r rôl wedi'i chynnwys/heb ei chynnwys yn neddfwriaeth Adsefydlu Troseddwyr er mwyn rhoi manylion eu cofnod troseddol. Rydym yn gwarantu mai dim ond y rhai sydd angen gweld y wybodaeth hon fel rhan o'r broses recriwtio a dethol fydd yn ei gweld a'i gwirio ar gyfer y darpar ymgeisydd llwyddiannus yn erbyn

canlyniad y Dystysgrif Datgelu yn unig. Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw yn unol â'n hysbysiad Preifatrwydd.

- Ar gyfer swyddi perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth Adsefydlu Troseddwyr, gofynnir i ymgeiswyr sydd wedi'u rhoi ar y rhestr fer ddatgelu unrhyw euogfarnau neu rybuddion heb ddarfod na fyddai'n cael eu hidlo o dan y rheolau hidlo. Yn ogystal â hyn, ar gyfer swyddi yn ein siopau manwerthu, gofynnir i'r darpar ymgeisydd llwyddiannus wneud cais am Ddatgeliad cofnodion troseddol sylfaenol.

- Gall rhai euogfarnau a rhybuddion 'ddarfod' ar ôl cyfnod adsefydlu lle na chafwyd unrhyw euogfarnau pellach. Bydd y ffordd y gall euogfarn 'ddarfod' o dan y ddeddfwriaeth yn dibynnu ar y ddedfryd a gafwyd am y drosedd, a'r cyfnod adsefydlu perthnasol. Fodd bynnag, mae rhai euogfarnau nad oes modd iddynt ddarfod byth a byddant bob amser yn cael eu datgelu ar dystysgrif Datgelu.

- Ar gyfer swyddi heb eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth Adsefydlu Troseddwyr, fel y rhai sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed, gofynnir i ymgeiswyr sydd wedi'u rhoi ar y rhestr fer ddatgelu rhybuddion ac euogfarnau troseddol 'sydd wedi darfod' a 'heb ddarfod' na fyddent yn cael eu 'diogelu' na'u hidlo, o dan y rheolau hidlo perthnasol. Bydd yn ofynnol i'r darpar ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad datgelu cofnodion troseddol manylach, gan gynnwys pan fo'n gymwys, gwiriad yn erbyn y rhestr waharddedig berthnasol rhag gweithio gyda phlant a / neu oedolion sy'n agored i niwed. (Os yw'r unigolyn yn aelod o'r Gwasanaeth Diweddaru Datgelu a Gwahardd (Cymru a Lloegr) yn y gweithlu perthnasol ac ar y lefel ofynnol, bydd Barnardo's, gyda chaniatâd yr unigolyn, yn cynnal gwiriad statws ar gyfer unrhyw dystysgrif gyfredol).

- Gofynnir am wiriad datgelu cofnodion troseddol yn unig ar gyfer y swyddi hynny lle ystyrir ei fod yn gymesur ac yn berthnasol i'r swydd dan sylw, ar ôl ystyried gofynion y swydd.

- Gyda rhai eithriadau e.e., euogfarn am drosedd Atodlen Pedwar, bod ar y rhestr waharddedig berthnasol ar gyfer gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, ni fydd cael cofnod troseddol o reidrwydd yn gwahardd person rhag gweithio naill ai mewn swydd gyflogedig neu rôl ddi-dâl. Bydd hyn yn dibynnu ar natur yr euogfarn(au) a ddatgelwyd a'r swydd yr ymgeisir amdani, amgylchiadau a chefndir y troed a pha mor berthnasol ydynt i'r swydd dan sylw.

- Ni wrthodir swyddi i ymgeiswyr addas oherwydd troseddau nad ydynt yn berthnasol i'r swydd y maent yn gwneud cais amdani, ac nad ydynt yn eu rhoi mewn risg neu'n peri risg iddynt.

- Yn ystod y cyfweliad, neu mewn trafodaeth ar wahân, rydym yn sicrhau bod trafodaeth agored a phwyllog yn cael ei chynnal am unrhyw droseddau neu bryderon cysylltiedig eraill a allai fod yn berthnasol i'r sefyllfa.

- Rydym yn ymrwymo i drafod unrhyw fater a ddatgelir mewn Datgeliad gyda'r sawl sy'n ymgeisio am y swydd cyn penderfynu a fydd y cynnig amodol o gyflogaeth neu leoliad gwirfoddoli yn cael ei gadarnhau neu ei dynnu'n ôl.

- Gallai methu â datgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd yr ymgeisir amdani arwain at dynnu cynnig o gyflogaeth neu leoliad gwirfoddoli yn ôl.

- Unwaith y byddant yn y swydd, rhaid i aelodau'r staff, yn unol â Chod Ymddygiad Diogelu Barnardo's, roi gwybod i'w rheolwr llinell am unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau sy'n effeithio ar statws eu cofnod troseddol, fel y gellir adolygu unrhyw effaith ar eu haddasrwydd i wneud y swydd. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn berthnasol i waith gwirfoddol a dylai gwirfoddolwyr hefyd hysbysu eu goruchwyliwr.

## Canllawiau a dogfennau cysylltiedig

- Polisïau Datgelu Cofnodion Troseddol (Cymru a Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban)
- Rheolau hidlo
- Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Polisi Recriwtio a Dethol
- Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol
- Cod Ymddygiad Diogelu
- Gweithdrefnau Gwirfoddoli

## Llyfryddiaeth

- Deddf yr Heddlu 1997
- Deddf Amddiffyn Grwpiau Agored i Niwed (Yr Alban) 2007
- Deddf Adsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974 – Gorchymyn Eithriadau 1975 fel y'i diwygiwyd yn 2013 a 2020
- Gorchymyn Adsefydlu Troseddwyr (Gogledd Iwerddon) 1978
- Gorchymyn Adsefydlu Troseddwyr (Eithriadau) (Gogledd Iwerddon) 1979
- Gorchymyn Adsefydlu Troseddwyr (Eithriadau) (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2012 a 2019
- Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Gwaharddiadau ac Eithriadau) (Yr Alban) 2003 a 2020

## Cydymffurfio

- Timau Pobl Lleol, y Ganolfan Recriwtio a Thimau Gwirfoddoli ac Ymgysylltu â'r Gymuned yn monitro cydymffurfiaeth gyffredinol â pholisi.
- Adborth gan UNSAIN a Rhwydweithiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Barnardo's.
- Archwiliadau

## Hanes y ddogfen

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Statws | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| 2.0 | 01.04.17 | Tîm Polisi a Chyngor | Cymeradwywyd | Diweddarwyd y polisi i fformat newydd. |
| 2.1 | 1.10.18 | Tîm Polisi a Chyngor | Cymeradwywyd | Diweddarwyd i adlewyrchu Datgeliadau sylfaenol |
| 2.2 | 01.07.21 | Tîm Strategaeth a Phrosiectau Pobl | Cymeradwywyd | Diweddarwyd i adlewyrchu newid mewn rheolau hidlo. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |